



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Ei Gwneud yn Orfodol Cofrestru Gweithwyr Cartrefi Gofal i Oedolion

Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
(Cymru) 2016 –

- i'w gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, ac mewn gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, o 1 Hydref 2022 a gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyflogi a/neu i gymryd ymlaen o dan contract ar gyfer gwasanaethau unigolion sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unig.

Ebrill 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i'n hymgyngoriad:

WG43389 – Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i'w gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, ac mewn gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, o 1 Hydref 2022 a gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyflogi a/neu i gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau unigolion sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unig.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 20 Rhagfyr 2021 a daeth i ben ar 28 Chwefror 2022. Cafwyd 30 o ymatebion i'r ymarfer hwn gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i'r cyfeiriad/cyfeiriad e-bost canlynol:

Y Gangen Polisi Gweithlu
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: RISCAct2016@gov.wales

Copiau ychwanegol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru:
<https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynnwys

Tudalen

Adran 1

- 1.1 Cyflwyniad
- 1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid
- 1.3 Yr ymgynghoriad hwn
- 1.4 Digwyddiadau ymgynghori
- 1.5 Y camau nesaf

Adran 2

- 2.1 Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru
- 2.2 Cwestiynau ychwanegol

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf crëwyd fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a phasiwyd dwy ddeddfwriaeth arloesol. Y nod cyffredinol oedd diwygio a chydgrynhoi cyfraith gofal cymdeithasol er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹ ('Deddf 2014'), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn sefydlu fframwaith newydd sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith mewn perthynas â'r rhan fwyaf o wasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016² ('Deddf 2016') Gydysniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n pennu'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mae'n diwygio'r modd y rheoleiddir y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly, mae'n disodli systemau perthnasol a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000³.

Mae'r ddwy ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu nifer o is-deddfwriaethau trwy lunio rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau statudol a chyflwyno codau ymarfer.

O ran gweithredu Deddf 2016, aethpwyd i'r afael â hyn i raddau helaeth o fewn tri cham gorgyffyrddol:

- Roedd **Cam 1 (2016/17)** yn cynnwys rheoliadau'n ymwneud â'r system ofynnol newydd i reoleiddio'r gweithlu a daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru y rheolau a'r gweithdrefnau i lywodraethu'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.
- Yn ystod **Cam 2 (2017/18)** cafodd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig eu rhoi mewn lle a'u gweithredu gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fis Ebrill 2018. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a oedd yn ddisgwyliedig o ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn cartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel i blant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Gellir dod o hyd i ddolenni ar gyfer y rheoliadau a'r canllawiau statudol sy'n berthnasol i gam 1 a cham 2 trwy gyfrwng Hwb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru⁴:

- **Cam 3 (2018/19)** yw'r cam presennol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig o ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn gwasanaethau mabwysiadu,

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

² http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_en.pdf

³ http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

⁴ <https://socialcare.wales/hub/riscact-regulations>

gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli.
Bwriedir i'r rhain ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Rheoleiddio gwasanaethau

Er bod Deddf Safonau Gofal 2000 wedi gosod sylfaen dda ar gyfer gwella ansawdd gofal cymdeithasol, buan iawn y'i gadawyd ar ôl gan gyflymder y newid o fewn y sector a chan ddatblygiad modelau newydd ar gyfer darparu gofal a chymorth i'r bobl fwyaf anghenus ledled Cymru. Er mwyn cydnabod y newidiadau hyn, pennwyd bod angen sicrhau na fyddai ein trefniadau rheoleiddio yn dyddio a bod angen cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Anelodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 at wneud hyn trwy roi'r dinesydd wrth galon a chraidd cyfundrefn reoleiddio newydd, gan ganolbwyntio ar yr effaith a gaiff gwasanaethau ar unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Er mwyn sicrhau bod modd i'r broses reoleiddio oruchwylio'r uchelgais hon, mae ein dull o ddiwygio'r system reoleiddio – dull a ysgogir yn bennaf trwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) – yn gorffwys ar bum egwyddor allweddol, sef:

- ymatebolrwydd i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014⁵ ('Deddf 2014')
- sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
- datblygu dull cydlynol a chyson yng Nghymru
- mynd i'r afael â methiannau darparwyr
- ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd a phryderon a ddaw i'r amlwg ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Ymhellach, cafodd y rheoleiddwyr (sef Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru) ddiben a phwerau newydd i oruchwylio'r modelau gofal a chymorth newydd hyn ynghyd â sicrhau mwy o gysondeb a gwell diogelwch rhag cam-drin a cham-fanteisio a sicrhau yr amlygir mwy o arferion sydd islaw'r safon. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, aethom ati i gyflwyno rôl yr Unigolyn Cyfrifol, lle sefydlir cadwyn atebolrwydd glir ochr yn ochr â bwrdd darparwyr gwasanaethau a rheolwr gwasanaethau. O ran y gweithlu, roedd hyn yn cynnwys hyblygrwydd i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt allu mynnu y dylai grwpiau ychwanegol o fewn y gweithlu ymuno â chofrestr y gweithlu. Mae'r gofrestr yn ffordd bwysig o sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn addas i weithio yn y maes gofal cymdeithasol; ac mae'n rhoi gweithwyr gofal cymdeithasol ar yr un gwastad â gweithwyr proffesiynol eraill mewn gwasanaethau cyhoeddus, megis pobl sy'n gweithio yn y meysydd iechyd ac addysgu.

⁵ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

Trwy gyflwyno cyfres o is-deddfwriaethau ⁶, paratowyd y ffordd ar gyfer ei gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion. Mae cofrestru yn diogelu mwy ar y cyhoedd, gan sicrhau bod y gweithwyr yn gweithio yn ôl Cod Ymarfer proffesiynol a sicrhau mai gweithwyr cymwys a chymwysedig yn unig a all ddarparu gofal a chymorth. Ymhellach, gall gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i deimlo'n hyderus fod y gweithwyr yn rhan o weithlu proffesiynol sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd i drigolion Cymru.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Rhoddwyd yr ymgynghoriad ar waith rhwng 20 Rhagfyr 2021 a 28 Chwefror 2022⁷. Ei nod oedd ceisio barn ynglŷn â'r canlynol:

Rheoliadau Drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2022 ('y Rheoliadau drafft') sydd, yn gryno, yn bwriadu gwneud y canlynol:

- gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd i sicrhau bod cyflogaeth sy'n darparu gofal a chymorth i unrhyw berson o fewn y gwasanaeth wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn chwe mis i ddechrau eu cyflogaeth; a
- gosod gofyniad ar ddarparwyr y gwasanaethau hyn i sicrhau bod unrhyw unigolion sy'n ymwneud â contract ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth i unrhyw berson o fewn y gwasanaeth wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn chwe mis i'r dyddiad y cânt eu cymryd ymlaen o dan contract ar gyfer gwasanaethau.

Derbyniwyd 30 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Ymatebodd rhai trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein, gan ddefnyddio'r botymau cytuno/tueddu i gytuno/tueddu i anghytuno/anghytuno yn unig, heb gyflwyno sylwadau. Fodd bynnag, ystyriwyd yr holl ymatebion yn gydradd â'i gilydd ac rydym wedi ymateb i'r sylwadau a gyflwynwyd. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Yn Atodiad 2 ceir crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru.

1.4 Digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd un weminar ymgynghori ar-lein ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn y weminar hon trafodwyd cynigion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd; ynghyd â chynigion Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn â newid ei brosesau cofrestru. Nod y digwyddiad oedd annog rhanddeiliaid i ymateb a galluogi'r mynychwyr i wneud y canlynol:

⁶ Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017; Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2018; Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

⁷ <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016>

- cael trosolwg o'r ddeddfwriaeth ddrafft a'r newidiadau allweddol a roddir ar waith gan y ddeddfwriaeth honno;
- gwirio eu bod yn deall y cynigion a cheisio eglurder pe bai angen;
- ystyried goblygiadau posibl o ran eu rôl a'u sefydliad;
- ystyried ffordd newydd o gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio asesiadau cyflogwyr o'u sgiliau a'u pridoledau;
- gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, adolygu hyd y cyfnod cyn-cofrestru a estynnwyd dros dro i 12 mis; a
- lleihau nifer yr oriau a dreulir yn ymhél â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) dros gyfnod o dair blynedd, o 90 awr i 45 awr.

Cynhaliwyd y digwyddiad gan Gofal Cymdeithasol Cymru trwy Zoom ar 15 Chwefror. Fe'i mynychwyd gan 94 o bobl ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau preifat a sefydliadau'r trydydd sector yn ogystal â chyrff a oedd yn cynrychioli darparwyr gwasanaethau.

O ran yr ymatebion a gofnodwyd yn y digwyddiad hwn, dim ond y rhai a oedd yn ymwneud â Rheoliadau drafft Llywodraeth Cymru (a nodir ym mharagraff 1.3) a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

1.4 Y camau nesaf

Yn dilyn cyngor gweithdrefnol gan Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, cytunodd Gweinidogion Cymru y dylid cyflwyno'r Rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch gerbron Senedd Cymru ym mis Gorffennaf 2022 mewn un offeryn statudol, o dan y teitl "Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2022".

Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Os cânt eu pasio gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022, byddant yn dod i rym ym mis Hydref 2022.

Ein bwriad yw y bydd y canllawiau statudol yn dod i rym ar yr un pryd â'r rheoliadau ym mis Hydref 2022.

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn rhai achosion, cafodd y materion a grybwyllwyd eu hailadrodd yn nifer o'r cwestiynau. Er mwyn osgoi ailadrodd, byddwn yn ymateb unwaith yn unig i'r materion hynny yn y ddogfen hon.

Sylwer: Gan fod y canrannau wedi'u talgrynnu, efallai na fydd pob un ohonynt yn gwneud cyfanswm o 100%.

Rheoliad sy'n ei gwneud yn orfodol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]

Cwestiwn 1: A yw'r rheoliadau drafft yn ddigon clir a chynhwysfawr i roi gwybod i unigolion yn effeithiol ei bod yn ofynnol iddynt gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithwyr cartref gofal i oedolion, neu weithwyr canolfan breswyl i deuluoedd?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ni nodwyd
14	11	1	1	3
47%	37%	3%	3%	10%

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion o'r farn fod y Rheoliadau drafft yn glir ac yn gynhwysfawr ynglŷn â'r hyn roeddynt yn ceisio'i gyflawni, a'u bod yn rhoi gwybod yn effeithiol i'r gweithwyr hynny a'u cyflogwyr pwy fydd angen cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru, erbyn mis Hydref 2022. Roedd rhai ymatebion o'r farn fod y Rheoliadau yn tynnu sylw at bwysigrwydd y rolau a'u bod yn cynnig cydraddoldeb gyda grwpiau eraill yn y gweithlu yr oedd yn ofynnol iddynt gofrestru eisoes.

Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno ag egwyddorion ac amcan y Rheoliadau, cododd rhai ymatebion ambell gwestiwn yn eu cylch. Er bod y Rheoliadau yn ceisio'i gwneud yn ofynnol cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd angen cofrestru gweithwyr gwasanaethau byw â chymorth. Gofynnodd yr ymatebydd hwn am fwy o eglurder ynglŷn â pha rolau y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru. Dywedodd dau o'r ymatebion nad oedd hi'n glir a fyddai'n ofynnol i nyrsys mewn cartrefi gofal gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru – rhywbeth a fyddai'n peri iddynt orfod cofrestru ddwywaith a thalu ffioedd ychwanegol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Byddai hyn yn rhoi pwysau gormodol a chostau ariannol ar y nyrsys o dan sylw, a byddai hynny'n annheg. Ymhellach, mynegwyd pryderon y byddai nyrsys sy'n ysgwyddo rolau rheoli mewn gofal cymdeithasol yn wynebu problemau tebyg o ran cofrestru ddwywaith, ac y gallai hyn eu perswadio i beidio â mynd i'r afael â'r rolau yma. Gofynnodd ymatebydd arall a gâi gweithwyr asiantaeth eu cynnwys yn y Rheoliadau, a pha un a fyddai'n ofynnol i weithwyr sy'n byw ac yn gweithio'n bennaf dros y ffin gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

O gofio ein bod mewn pandemig, aeth ambell un o'r ymatebwyr ati i gwestiynu'r amseru ar gyfer cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, a pha un a fyddai'r neges ynglŷn â'r dyddiad cau a'r angen i gofrestru yn cael ei chlywed yn ystod y pandemig parhaus. Roedd rhai o'r farn fod angen i Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu canllawiau gweithredol cryno, ynghyd â chymorth parhaus, er mwyn helpu cyflogwyr a chyflogeion i ddeall y broses gofrestru a'i chwblhau. Roedd un ymatebydd o'r farn fod iaith y Rheoliadau yn rhy "gyfreithiol" o ran y termau a ddefnyddir ac y byddai'n anodd i bobl gyffredin ddeall y Rheoliadau; ac yn ôl ymatebydd arall, er bod rhai darparwyr yn deall y Rheoliadau, roedd deall y Rheoliadau a chydymffurfio â nhw yn ddau fater gwahanol.

O blith yr ymatebion a oedd yn anghytuno bod y Rheoliadau yn glir ac yn gynhwysfawr, roedd un ymatebydd o'r farn fod angen mwy o eglurder ynglŷn â sut y byddai'r rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith ar lefel weithredol, yn cynnwys gwybodaeth am ba rolau y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru. Yn ôl ymateb arall, roedd hi'n bwysig cyfleu'r rheoliadau newydd, yn ogystal â'r amserlen ar gyfer cofrestru, y rhesymau dros gofrestru a'r manteision i weithwyr presennol/darpar weithwyr mewn cartrefi gofal a chanolfannau preswyl i deuluoedd; dylid cyfathrebu'r wybodaeth hon mewn dulliau clir a thrwy gyfrwng nifer o sianeli cyfathrebu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd mwyafrif yr ymatebion o'r farn fod y Rheoliadau yn glir ac yn gryno.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"), rydym wedi datgan y byddai'n ofynnol i weithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Ein nod yw proffesiynoli'r gweithlu, yn ogystal â helpu i godi proffil y gweithlu gofal cymdeithasol ymhlith y cyhoedd a meithrin hyder y cyhoedd yn y gweithlu hwnnw.

Mewn ymateb i'r ymholiadau ynghylch mwy o eglurder ynglŷn â pha rolau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes wedi cyflwyno manylion clir am y broses gofrestru ar ei wefan: <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/sut-i-wneud-cais>.

Sylweddolwn fod rhai gweithwyr yn rhoi gofal a chymorth uniongyrchol i unigolion, fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf 2016, mewn lleoliadau byw â chymorth. Fel arfer, caiff gwasanaethau o'r fath eu darparu gan wasanaeth cymorth cartref sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae cyflogeion o fewn y gwasanaeth hwnnw yn weithwyr gofal cartref a byddai'n ofynnol iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn yr un modd, yn achos gweithwyr sy'n rhoi gofal a chymorth uniongyrchol mewn gwasanaethau sydd wedi cofrestru fel cartrefi gofal i oedolion neu wasanaethau gofal preswyl i deuluoedd, byddem yn disgwyl iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Crybwyllwyd yr angen i osgoi cofrestru dwbl yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â chofrestru gweithwyr cymorth cartref hefyd – pan fo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (e.e. nyrsys, fferyllwyr ac ati) yn gweithio mewn gofal cymdeithasol. Fe wnaethom gytuno y dylid osgoi unrhyw gofrestru dwbl yn achos y gweithwyr proffesiynol hyn pan fônt yn rhoi gofal a chymorth nyrsio fel prif swyddogaeth eu rôl yn y lleoliad gofal cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb clir i'w cael pan fo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi gofal a chymorth yn

eu rhinwedd broffesiynol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Yn yr achos hwn, byddai nyrsys neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu rheoleiddio gan eu rheoleiddiwr proffesiynol neu eu corff proffesiynol (h.y. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac ati). Bydd hyn yn lleihau unrhyw ddryswch ynglŷn â pha reoleiddiwr a fydd yn goruchwyllo anghenion hyfforddi, datblygiad proffesiynol parhaus neu unrhyw ymchwiliadau angenrheidiol i gamymddwyn neu gamarfer. Fodd bynnag, pan fo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ysgwyddo rôl reoli sy'n ymwneud yn bennaf â goruchwyllo'r modd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd, a phan fônt yn arfer eu proffesiwn i raddau cyfyngedig yn unig, neu ddim o gwbl, disgwyliwn i'r gweithwyr hyn gofrestru fel rheolwyr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yn yr un modd ag y mae'n ofynnol i reolwyr eraill wneud hynny. Pwrpas hyn yw gwneud yn siŵr y bydd modd i Gofal Cymdeithasol Cymru sicrhau bod rheolwyr yn cydymffurfio ag adran 84 o Ddeddf 2016 sy'n delio ag unigolion "sydd wedi cymhwysu'n briodol" a'u bod yn bodloni'r meini prawf yn yr ystyr bod ganddynt gymhwyster neu hyfforddiant priodol a gymeradwyir gan y rheoleiddiwr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau ein bod yn osgoi cofrestru dwbl gyda rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol eraill, a bydd yn nodi a oes yna gyfleoedd pellach i gynnig gwell eglurder ynglŷn â chofrestru gweithwyr mewn amryfal leoliadau.

Mewn ymateb i'r ymholiad ynglŷn â gweithwyr asiantaeth, fel y nodir yn y Rheoliadau disgwyliwn i'r holl weithwyr gofrestru os ydynt yn darparu gofal a chymorth mewn cartref gofal i oedolion neu wasanaeth cymorth preswyl i deuluoedd – pa un a gânt eu cyflogi'n uniongyrchol neu eu cyflogi o dan gontract. Er nad yw'n ofynnol i wasanaethau asiantaeth gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gan eu bod yn cyflenwi gweithwyr ar gyfer gwasanaethau eraill, disgwyliwn i'r gweithwyr hyn gofrestru fel pe baent yn un o gyflogeion y cartref gofal i oedolion neu'r gwasanaeth cymorth preswyl i deuluoedd y mae ganddynt gontract gydag ef i ddarparu gofal. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cymryd gweithwyr ymlaen eu bodloni eu hunain bod y gweithiwr/gweithwyr wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu.

Y bwriad gwreiddiol oedd ei gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion a gweithwyr gwasanaethau gofal preswyl i deuluoedd o fis Ebrill 2022 ymlaen. Mewn ymateb i'r pandemig, penderfynodd Gweinidogion Cymru ohirio cyflwyno'r broses gofrestru orfodol am chwe mis, tan fis Hydref 2022. Ar hyn o bryd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgynghori ynglŷn â'r gofynion cyn-cofrestru ar gyfer yr holl weithwyr er mwyn helpu i symleiddio'r broses a sicrhau y bydd modd i fwy o weithwyr ymuno â'r gofrestr cyn y dyddiad cau. Er bod y pandemig wedi effeithio'n fawr ar y broses gofrestru, gwelwn eisoes fod gweithwyr mewn cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau gofal preswyl i deuluoedd yn dechrau ymuno â'r gofrestr. Ochr yn ochr â'i waith yn cynorthwyo'r gweithlu trwy'r pandemig, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cynnal cyfres o seminarau a gweithdai ar-lein er mwyn helpu cyflogwyr a chyflogeion i ddeall y broses gofrestru a sut i'w chwblhau. Bydd y gwasanaethau hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rheoleiddiwr er mwyn sicrhau y gall y gwasanaethau hyn barhau a chynorthwyo'r gweithlu i gofrestru erbyn y dyddiad cau ym mis Hydref.

Cwestiwn 2: A yw'r rheoliadau drafft atodedig yn ddigon clir a chynhwysfawr i weithredu cofrestriad gorfodol gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ni nodwyd
15	10	2	0	3
50%	33%	7%	0%	10%

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno bod y Rheoliadau yn ddigon clir a chynhwysfawr i weithredu cofrestrriad gorfodol gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd. Ym marn rhai ymatebwyr, mae hyn yn sbardun pellach ar gyfer proffesiynoli'r gweithlu, gan gydnabod sgiliau a gwaith caled y gweithlu a chodi proffil y sector. Fodd bynnag, nid ymhelaethodd nifer fawr o'r ymatebion (13) ynglŷn â pham roeddynt yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'n cynigion.

Fodd bynnag, er bod rhai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno, aethant yn eu blaen i esbonio eu bod o'r farn fod angen hyblygrwydd o ran cyrraedd y dyddiad cau tynn, a hynny oherwydd yr adferiad ar ôl Covid, materion recriwtio a seilwaith TG gwael yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig gan ein bod yn dal i fod yng nghanol y pandemig. Yn ôl rhai, byddai cael eglurder ynglŷn â'r rolau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, ynghyd ag eglurder ynglŷn â'r diffiniadau o ofal a chymorth, a hynny mewn iaith glir, yn fodd o atgoffa cyflogwyr a chyflogeion ac yn helpu i sicrhau y bydd y staff iawn yn cael eu cofrestru. Mynegwyd y pwyntiau hyn hefyd gan ddau ymateb a oedd yn tueddu i anghytuno â'r Rheoliadau, lle dywedwyd bod angen mwy o eglurder ynglŷn â pha rolau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru. Esboniodd yr ymatebion hyn y dylid egluro pethau'n well er mwyn osgoi cofrestru ddwywaith gyda dau gorff rheoleiddio gwahanol; ac y dylid sicrhau bod gweithwyr sy'n gweithio mewn amgylcheddau amlwasanaeth (h.y. lle darperir gwasanaethau gofal a gwasanaethau addysgol yn yr un lleoliad) yn gwybod yn iawn a oes angen iddynt gofrestru, ai peidio. Roedd un ymateb o'r farn y dylid ymdrin â'r broblem o ran rheoleiddio'r sector gofal cymdeithasol mewn modd a fydd yn annog integreiddio yn hytrach nag mewn modd a fydd yn sefydlu diffyg integreiddio.

Er bod un ymateb yn cydnabod bod y Rheoliadau yn glir, roedd yr ymatebydd hwn o'r farn y byddai cofrestru'r gweithwyr hyn yn rhwystr rhag denu a recriwtio pobl i'r sector ar adeg lle ceir problemau hysbys o ran recriwtio a chadw staff. Roedd ymatebydd arall o'r farn fod angen addasu faint o amser a gymerir i gwblhau'r fframwaith cynefino a bod angen ei symleiddio er mwyn helpu i leihau'r pwysau o ran recriwtio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ôl mwyafrif yr ymatebion, roedd y Rheoliadau drafft yn ddigon clir a chynhwysfawr i weithredu cofrestrriad gorfodol gweithwyr cartrefi gofal i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd.

Rydym wedi ymrwmo o hyd i godi proffil gwaith gofal cymdeithasol fel proffesiwn a gweithio gyda'r sector i barhau i godi safonau ymarfer ac ymddygiad. Rydym yn hyderus o hyd y bydd cofrestru yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu, gan roi hyder iddynt fod gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yn dilyn Cod Ymarfer Proffesiynol. Hefyd, bydd cofrestru yn helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddangos eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i fod yn weithwyr gofal cymdeithasol, a bydd yn rhoi gwell mynediad i weithwyr at adnoddau hyfforddi a datblygu trwy gyfrwng Gofal

Cymdeithasol Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am y manteision sy'n perthyn i gofrestru, edrychwch ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru>. O ran y dyddiad cau ar gyfer cofrestru, mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru broses gadarn ar waith ar gyfer gweinyddu'r ymarfer a chyfathrebu gyda'r sector ynglŷn â'r angen i gofrestru eu staff erbyn mis Hydref 2022. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn fodlon cynorthwyo'r sector a helpu cyflogwyr a chyflogeion i ddeall a dilyn y broses; ac ym mharagraff olaf ein hateb i Gwestiwn 1, soniwyd eisoes am yr help a'r cymorth sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cwestiwn 3: A ddylid darparu unrhyw ganllawiau i helpu darparwyr gofal preswyl i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd i gydymffurfio â'r rheoliad hwn? Os felly, sut fath o ganllawiau fyddai'n angenrheidiol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ni nodwyd
20	4	1	2	3
67%	13%	3%	7%	10%

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'n amlwg fod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'r farn y dylid darparu canllawiau syml i gyflogwyr ynglŷn â sut i gofrestru, er mwyn eu helpu nhw a'u staff i gwblhau'r broses hon. Roedd rhai o'r farn fod angen mwy o gymorth i gyflogwyr a chyflogeion ar gyfer cwblhau'r broses – h.y. mwy o weithdai, taflen Cwestiynau Cyffredin, siart lif, yn ymwneud â'r anghenion hyfforddi ar gyfer cofrestru a'r safonau y disgwylir i weithwyr gadw atynt. Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai enghreifftiau o "amgylchiadau eithriadol" o safbwynt rheoleiddiwr y gwasanaeth, sef Arolygiaeth Gofal Cymru, a rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru, yn helpu cyflogwyr a chyflogeion i ddeall pa gymorth y gallent ei gael, a phryd. Gofynnodd un ymatebydd am gael un storfa ar gyfer yr holl ganllawiau, gan y byddai nifer ohonynt yn darparu dolenni neu'n cyfeirio at ganllawiau eraill mewn manau eraill.

Yn achos y rhai a gyflwynodd esboniad pellach i ategu eu cytundeb, roedd nifer ohonynt o'r farn y dylai'r canllawiau ar gyfer y rheoliadau fod yn agored, yn glir ac yn hawdd eu deall ar bob lefel er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, ac y dylent hefyd gynnig mwy o sicrwydd i deuluoedd ac i ddefnyddwyr gwasanaethau. Cyflwynwyd cais tebyg i Lywodraeth Cymru am daflen Cwestiynau Cyffredin yn ymwneud â'r rheoliadau.

Gofynnodd nifer o ymatebion am gael canllawiau clir ynglŷn â phwy fydd angen cofrestru, yn cynnwys gwybodaeth ynghylch unrhyw hyblygrwydd i weithwyr achlysurol, staff gwirfoddol neu bobl ar is-gontractau a'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth achlysurol yn eu rolau. Roedd rhai o'r farn fod geiriad y Rheoliadau yn amwys ac y gellid dehongli'r pwynt hwn mewn mwy nag un ffordd. Ymhellach, gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd cynnwys gwybodaeth am gofrestru nyrsys yn y canllawiau statudol ar Reoliad 35(5), gan y byddai hyn yn cynnig eglurder ynglŷn â'r mater ac yn cadarnhau a fyddai angen i fyfyrwyr nyrsio gofrestru, ai peidio – oherwydd ni sonnir yn benodol am hyn yn unman arall. Gan fod angen annog nyrsys i weithio mewn gofal cymdeithasol, roedd yr ymatebydd hwn o'r farn y byddai cael gwared â'r gofyniad i gofrestru myfyrwyr nyrsio yn gymhellid da.

Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylai unrhyw ganllawiau cyhoeddedig fod yn glir ac yn gyson â newidiadau arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â'r broses gofrestru, a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror⁸.

Yn achos un ymatebydd a anghytunai fod angen unrhyw ganllawiau pellach, credai'n gryf fod y gofynion cofrestru yn ddigon clir a bod angen cyflwyno cosbau llymach ar y rhai a fethai gydymffurfio â'r gofynion. Yn achos gweddill yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anghytuno/tueddu i anghytuno, ni chyflwynwyd esboniad manwl ganddynt i ategu eu barn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwelir bod mwyafrif yr ymatebion wedi gofyn am gael canllawiau clir a chryno, yn cynnwys canllawiau 'hawdd eu darllen' o ryw fath yn ymwneud â'r broses gofrestru, yn cynnwys dogfen Cwestiynau Cyffredin, siart lif a gwybodaeth am anghenion hyfforddi ar gyfer cofrestru. Byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu a yw'r adnoddau cyfredol yn bodloni'r ceisiadau hyn, a hefyd byddwn yn ystyried datblygu adnoddau ychwanegol pan fo angen, er mwyn helpu cyflogwyr a chyflogeion. Ymhellach, byddwn yn gweithio gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth a rheoleiddiwr y gweithlu, sef Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, i drafod a fydd modd cynnig enghreifftiau o "amgylchiadau eithriadol" mewn perthynas â'u prosesau cofrestru.

Byddwn yn adolygu'r canllawiau statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol o ran bodloni rheoliadau safonau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal; gwasanaethau cymorth cartref; gwasanaethau llety diogel; a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, er mwyn adlewyrchu'r Rheoliadau drafft hyn.

Cwestiwn 4: A yw'r canllawiau statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn glir ac yn gryno i helpu cyflogwyr i gydymffurfio â'r rheoliad hwn? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r canllawiau?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ni nodwyd
13	11	1	2	3
43%	37%	3%	7%	10%

Crynodeb o'r ymatebion

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod y canllawiau'n glir ac yn gryno, gofynnodd nifer ohonynt am ganllawiau pellach i gynorthwyo pobl trwy'r broses. Gofynnodd rhai am ddolenni ar gyfer helpu'r bobl sy'n ceisio cofrestru i ddeall y cymwysterau a'r safonau penodol y disgwyli'r cofrestreion eu bodloni a sut y gallant gael cymorth i'w helpu trwy'r broses gofrestru.

Yn achos dau ymatebydd a oedd yn tueddu i gytuno â'r canllawiau, fe wnaethant ofyn a fyddai modd cynnwys yn y canllawiau enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol ar gyfer cofrestreion sy'n feichiog, cofrestreion sydd ar gyfnod mamolaeth neu gofrestreion sydd ar absenoldeb salwch, gan ofyn hefyd a fyddai modd cynnwys hyblygrwydd yn y system er

⁸ <https://socialcare.wales/resources/consultation-on-changes-to-registration>

mwyn ymestyn yr amser a fydd ar gael iddynt ar gyfer cwblhau'r broses gofrestru. Hefyd, fe wnaethant ofyn am gyfradd ffioedd *pro rata* ar gyfer pobl na allant weithio blwyddyn lawn oherwydd absenoldeb o'r gwaith yn sgil y sefyllfaoedd hyn. Dywedodd y ddau ymatebydd y gallai darparwyr gwasanaethau benderfynu peidio â chyflogi staff rhan-amser oherwydd y gofyniad i gofrestru o fewn chwe mis.

Yn achos un ymatebydd a gyflwynodd sylwadau, er ei fod yn tueddu i gytuno bod y canllawiau'n glir ac yn gryno, gofynnodd a fyddai modd cynnwys peth eglurder o ran Rheoliad 25 mewn perthynas â "Pharch a Sensitifrwydd" a Rheoliad 25(2) ynglŷn ag ystyried nodweddion gwarchoddedig perthnasol defnyddwyr gwasanaethau. Yn ôl yr ymatebydd hwn, nid yw'r canllawiau'n nodi beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol ac fe allai gynnig enghraifft o'r angen am hyfforddiant cydraddoldebau i'r staff, neu fel arall esbonio ei ystyr. Roedd yr ymatebydd o'r farn hefyd fod angen canllawiau penodol yn ymwneud â Rheoliad 42, sy'n cyfeirio at y ffaith ei bod yn ofynnol i gyflogwyr gynnig oriau wedi'u gwarantu i gyflogeion ar ôl 3 mis o gyflogaeth.

Yn achos un ymatebydd a oedd yn anghytuno bod y canllawiau'n glir ac yn gryno, daeth i'r farn hon gan fod hyd y canllawiau'n ei gwneud hi'n anodd i bobl lywio trwy'r ddogfen, ac awgrymodd y dylid cynnwys dolenni yn y dudalen gynnwys er mwyn i'r darllenwyr allu neidio i adrannau penodol. Dywedodd fod ei aelodau – sef rheolwyr cartrefi gofal i oedolion – wedi cael trafferth i ddeall y canllawiau. Dywedodd ymhellach y dylai'r canllawiau ddiffinio'n glir beth yw gofal a chymorth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu canllawiau i helpu pobl trwy'r broses gofrestru a'r cymwysterau angenrheidiol, a chaiff y rhain eu cysylltu â'r safonau y bydd yn ofynnol cadw atynt. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyflwyno tri llwybr cofrestru ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn cartrefi gofal i oedolion, yn cynnwys llwybr uniongyrchol ar gyfer gweithwyr â Lefel 2 neu Lefel 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol (Diploma, FCCCh neu NVQ) neu gymhwyster cyfwerth; cofrestru ar ôl cwblhau Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru; neu ardystiad o'u cymhwysedd gan eu rheolwr. Ochr yn ochr â hyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi rhoi ymgynghoriad ar waith i drafod sut y gellir symleiddio'r broses gofrestru er mwyn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i bobl weithio yn y sector gofal cymdeithasol. Rhoddwyd yr ymgynghoriad ar waith ar 8 Chwefror a daeth i ben ar 22 Mawrth⁹.

Rheoleiddiwr y gweithlu sy'n gyfrifol am osod ffioedd cofrestru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â'r strwythur ffioedd cyfredol gan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cydweddu'r trefniadau â threfniadau rheoleiddwyr gofal cymdeithasol eraill yn y DU. Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru sawl ffordd o helpu gweithwyr i wasgaru cost y ffi flynyddol er mwyn lleihau'r effaith, yn cynnwys debydau uniongyrchol misol. Hefyd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr a chyda'r gweithlu er mwyn edrych ar achosion unigol ac ystyried hyblygrwydd yn ei brosesau pan fo angen. Byddwn yn cynnal trafodaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn â'r awgrymiadau ar gyfer amrywio mwy ar y ffioedd.

Caiff y diffiniadau o ofal a chymorth eu nodi yn adran 3 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

⁹ <https://socialcare.wales/resources/consultation-on-changes-to-registration>

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau a grybwyllwyd mewn perthynas ag ystyried nodweddion gwarchoddedig defnyddwyr gwasanaethau a Rheoliad 42 fel rhan o'n hadolygiad arfaethedig o'r canllawiau statudol, a nodir yn ein hymateb i Gwestiwn 3. Hefyd, byddwn yn sôn wrth Gofal Cymdeithasol Cymru am hyn.

2.2 Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 5: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau gyflogi dim ond gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, yn eu cael yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

Cwestiwn 5i: Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Crynodeb o'r ymatebion

Ni chyflwynodd traean o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cwestiwn hwn.

O blith y rhai a gyflwynodd ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd nifer ohonynt o'r farn na fyddai'r Rheoliadau drafft yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg, ac na fyddent yn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ôl rhai, mae'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn dibynnu ar sawl ffactor, yn cynnwys y lleoliad, hyder y cyflogeion, yr angen am wasanaethau o'r fath mewn cymunedau a defnyddwyr y gwasanaethau. Er bod yr arfer o ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog, roedd un ymatebydd o'r farn fod angen meithrin mwy o hyder ymhlith y gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleientiaid.

Roedd rhai o'r ymatebion yn cydnabod bod y fframwaith strategol, "Mwy na geiriau", a'r Cynnig Gweithredol yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg – cyn belled ag y byddant yn parhau ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion cofrestru hyn, ni fyddant yn cael unrhyw effaith niweidiol. Croesawyd y ffaith fod y fframwaith strategol hwn yn cael ei adlewyrchu a hefyd croesawyd y ffaith fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i ddatblygu cynllun 5 mlynedd. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r ffaith fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu deunyddiau a gwasanaethau cymorth dwyieithog, a dywedasant fod hyn yn helpu i gryfhau ysbryd y fframwaith strategol.

Dywedodd rhai ymatebion fod angen bod yn ofalus o ran rhoi gofynion ychwanegol ar wasanaethau'n ymwneud â'r Gymraeg ar adeg pan mae'n wyneb pwysau eithafol eisoes.

Fodd bynnag, cafwyd rhai ymatebion a oedd o'r farn y byddai'r cofrestru ynddo'i hun yn gorfodi pobl allan o'r sector gofal cymdeithasol ac yn rhoi mwy o bwysau ar recriwtio a chadw staff.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o'r farn na fyddai'r cynigion hyn yn cael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i bobl a ddymunai gael gwasanaethau o'r fath trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynorthwyo darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i gydnabod i raddau pellach nad mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r Gymraeg, ond mater o angen hefyd. Cydnabyddwn fod hyn yn arbennig o bwysig i nifer o bobl agored i niwed a'u teuluoedd sydd angen cael gafael ar wasanaethau yn eu hiaith gyntaf, megis pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu sydd wedi cael strôc (sef pobl a allai golli eu hail iaith) neu blant ifanc iawn sydd ond yn gallu siarad Cymraeg o bosibl. Dymunwn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a meithrin hyder ymhlith y cyhoedd i ofyn am gael gofal a chymorth yn eu dewis iaith; a dymunwn i'r gweithlu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Mae "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg" yn nodi uchelgais, sef gweld cynnydd dros amser yn y nifer o bobl sy'n defnyddio ac yn mwynhau siarad Cymraeg, gan ddiogelu dyfodol ein hiaith unigryw a sicrhau y gellir ei defnyddio ym mhob agwedd ar ein bywydau beunyddiol. Mae'r Gymraeg wrth galon a chraidd Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a luniwyd ar y cyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru; ac mae cefnogi sgiliau Cymraeg ymhlith y gweithlu yn rhan o'r cynlluniau gweithredu manwl sydd wrthi'n cael eu datblygu o dan y strategaeth hon. Pleser hefyd oedd gweld bod yr ymatebion yn cydnabod bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio fel rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd newydd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gwaith pum mlynedd ar gyfer "Mwy na geiriau" yn dilyn y gwaith gwerthuso a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu ac ategu sgiliau Cymraeg y gweithlu ac effeithiolrwydd y Cynnig Gweithredol, sy'n ceisio cynnig dewis iaith i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth heb iddynt orfod gofyn amdano. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu deunyddiau penodol fel rhan o'i ymgyrch Gofalwn.cymru i hyrwyddo gyrfaedd yn y maes gofal cymdeithasol ymhlith siaradwyr Cymraeg; a hefyd mae wedi sefydlu Cysylltwyr Gyrfaedd Gofal ym mhob un o'r saith rhanbarth, lle mae'r Cysylltwyr yn gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd fel Gyrfa Cymru i hyrwyddo gyrfaedd gofal cymdeithasol.

Cydnabyddwn fod y pandemig wedi rhoi gofynion ar ysgwyddau'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac rydym wedi cyflwyno amryw byd o ymyriadau i gynorthwyo'r gweithlu yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys tri thaliad i'r gweithlu a phhecyn llesiant a reolwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Hefyd, rydym wedi ymrwmo i wella telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gydnabod bod creu gweithlu cryfach a gaiff gyflogau gwell yn hollbwysig o ran darparu'r gwasanaethau o ansawdd y dymunwn eu cael. Rydym wedi dechrau ar y broses hon trwy weithredu'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol o fis Ebrill 2020. Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sef partneriaeth gymdeithasol sy'n dwyn ynghyd undebau llafur, cyflogwyr a'r Llywodraeth, yn ystyried sut y dylid cymhwyso'r diffiniad o waith teg at weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Trwy gyfrwng cyd-drafodaethau rhwng y partneriaid hyn, bydd y Fforwm yn pennu arferion gweithio da yn y maes gofal cymdeithasol, yn cynnwys cyflogau, amodau gweithio, llais cyflogeion a hyfforddiant i gyflogeion.

Cwestiwn 5: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi dim ond gweithwyr cartrefi

gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, yn eu cael yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

Cwestiwn 5ii. *Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?*

Crynodeb o'r ymatebion

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr.

O blith y rhai a ymatebodd, roedd nifer ohonynt o'r farn fod angen gwneud mwy i annog yr arfer o ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu ymwybyddiaeth o fframwaith strategol "Mwy na geiriau" a'r "Cynnig Gweithredol" lle gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaethau a ydynt yn dymuno siarad Cymraeg, gan fynd ati wedyn i ddarparu eu gwasanaethau trwy'r cyfrwng hwn er mwyn eu helpu. Dywedodd un ymatebydd y dylai'r broses gofrestru fod yn ddwyieithog o'r dechrau i'r diwedd ac y dylid cynorthwyo'r cofrestreion i ddilyn eu haddysg broffesiynol barhaus yn eu dewis iaith. Yn ôl yr ymatebydd hwn, trwy gynorthwyo cofrestreion i ddefnyddio neu ddysgu'r Gymraeg, byddai modd cynyddu cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth gynnig gwasanaethau, a hefyd byddai modd gwella hyder y staff.

Er bod un ymatebydd yn cytuno â'r broses gofrestru, dywedodd fod angen mwy o gymorth i recriwtio a chadw staff. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y byddai gohio'r broses am 12 mis yn helpu yn hyn o beth, ochr yn ochr â mwy o gyllid er mwyn darparu cymorth, hyfforddiant a thâl priodol. Crybwyllodd ymatebydd arall fod angen mentrau hyfforddi ac offer ategol gwell er mwyn gwella cyfathrebu llafar, a dywedodd fod angen i'r Llywodraeth fuddsoddi yn y gwaith o wella trefniadau gofal cymdeithasol. Roedd yr ymatebydd hwn o'r farn hefyd y byddai buddsoddi mewn TG ar gyfer cartrefi gofal llai yn helpu i ategu dysgu a datblygu parhaus; ond byddai angen grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwireddu hyn. Dywedodd ymatebydd arall fod angen diwygio Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan er mwyn cael modiwl symlach (dwyieithog) a fyddai'n galluogi pobl ag anawsterau dysgu neu weithwyr rhan-amser o fewn y gweithlu i'w gwblhau, a chofrestru. Roedd yr ymatebydd hwn o'r farn fod y modiwl cyfredol yn dda, ond bod rhai staff yn cael trafferth i'w gwblhau a chofrestru o fewn y terfyn amser chwe mis.

Fodd bynnag, nid oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r trefniadau presennol mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod hi'n adeg cael gwared â'r gofynion o ran y Gymraeg, ac roedd ymatebydd arall o'r farn y dylid cynnig cymhellion ariannol ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, recriwtio a chadw staff.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymateb uchod wedi amlinellu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a'r camau a gymerwn i ategu'r cymorth hwn.

Mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn creu amgylchedd lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gydradd â'i gilydd. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorfforaethol gyfrifol am gydymffurfio'n llwyddiannus â

Safonau'r Gymraeg, a bennir ar ei gyfer gan y Mesur. Mae'n monitro ei gydymffurfiaeth ac yn adrodd amdano bob blwyddyn, ac mae'n ofynnol iddo gyhoeddi ei adroddiadau ar ei wefan – adroddiadau y bydd modd i Gomisiynydd y Gymraeg a'r cyhoedd graffu arnynt¹⁰. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi cyngor a chymorth i'r gweithlu ac i gyflogwyr trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ymhellach, mae'r rheoleiddiwr yn cyflwyno'i gyngor a'i ganllawiau i gyd yn y ddwy iaith, fel y gwelir ar y tudalennau gwe penodedig ar ei wefan. Mae'r tudalennau penodedig ar gyfer cofrestru yn cynnig canllawiau a chyngor ynglŷn â gwahanol feysydd, megis pam rydym yn cofrestru, y cymwysterau angenrheidiol, ffioedd cofrestru, cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflogeion, a Chodau Ymarfer; ac mae'r rhain ar gael i gyflogwyr ac i gyflogeion er mwyn eu helpu i ddeall a chwblhau'r broses gofrestru. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda chofrestreion ac yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i ffyrdd o barhau i ymhél â'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r ffaith fod rhai pobl yn awyddus i'r rhaglen gofrestru gael ei hymestyn neu ei gohirio am 12 mis er mwyn rhoi cyfle i'r sector adfer. Rydym wedi ymateb i'r pwynt hwn yng Nghwestiwn 1 uchod.

Cwestiwn 6: Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol?

Cwestiwn 6i: Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa un neu rai a pham/pam ddim?

Crynodeb o'r ymatebion

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan fwy na thraean o'r ymatebwyr.

Roedd nifer o'r ymatebion o'r farn na fyddai'r rheoliadau'n effeithio'n negyddol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, ond ni chyflwynwyd unrhyw resymau ategol. Yn ôl y rhan fwyaf o'r ymatebion, byddai proffesiynoli'r gweithlu yn cynnig cyfle teg a chyfartal i bobl o bob gallu, oherwydd byddai'r holl weithwyr yn gweithio'n ôl safon y cytunwyd arni. Yn ôl un ymateb, byddai proffesiynoli'r sector a chreu parch cydradd gyda'r GIG – h.y. llwybrau gyrfa, telerau ac amodau, gwahaniaethau o ran cyfrifoldebau ac ati – yn arwain at ddenu mwy o bobl i weithio o fewn y sector. Roedd un ymatebydd yn gobeithio y byddai hyn yn arwain at fwy o empathi/dealltwriaeth tuag at bobl â nodweddion gwarchoddedig. Yn ôl ymatebydd arall, dylid cyflwyno hyfforddiant gorfodol yn ymwneud ag adnabod a pharchu credoau diwylliannol, a dylai gynnwys anghenion dietegol unigolion fel rhan o'r credoau hynny.

Yn ôl un ymatebydd, er mwyn sicrhau y bydd yr ymgynghoriad yn esgor ar effaith gadarnhaol dylid holi'r bobl hynny yr effeithir yn uniongyrchol arnynt – h.y. pobl â nodweddion gwarchoddedig, gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion – er

¹⁰ <https://socialcare.wales/resources/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-ar-gyfer-2020-21>

mwyn deall sut bydd y cynigion yn effeithio arnynt. Soniodd yr ymatebydd hwn hefyd am y gofynion a roddir ar Lywodraeth Cymru i gwblhau'r Asesiadau Effaith angenrheidiol. Roedd yr ymatebydd yn cydnabod y byddai cofrestru'r gweithlu yn helpu i gasglu data systematig ynglŷn â demograffeg y gweithlu, sef rhywbeth a allai helpu i ddatblygu rhagor o bolisiau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a mesur cynnydd.

Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y gallai'r rheoliadau wahaniaethu yn erbyn gweithwyr hŷn a phobl ag anableddau dysgu gan na fyddent, o bosibl, yn dymuno mynd i'r afael â'r broses neu gan y byddent yn cael anhawster i gwblhau cymwysterau. Yn ôl un ymatebydd, roedd y cwestiwn yn amherthnasol i'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd; yn hytrach, dylid gofyn a yw'r gweithwyr yn cyrraedd ar amser ac yn dysgu sut i gwblhau eu gwaith er mwyn eu helpu i gyflawni'r cymwysterau angenrheidiol. Roedd yr ymatebydd hwn o'r farn nad oedd lliw, rhywedd ac ati yn ffactor yn hyn o beth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau'r holl Asesiadau Effaith angenrheidiol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu Deddf 2016 fe wnaethom ymgysylltu â nifer o randdeiliaid a chyrrff cynrychiadol allweddol a oedd yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig, a llwyddodd hyn i lywio cyfeiriad y polisi rydym bellach yn bwrw ymlaen ag ef.

Fel rhan o'u cofrestriad, mae'n ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol gytuno ar, a dilyn, Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol¹¹. Yn y Cod hwn, ceir rhestr o ddatganiadau lle disgrifir y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol y mae'n ofynnol i'r rhai a gyflogir yn y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru eu dilyn. Mae'n helpu unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth i ddeall sut y dylai gweithiwr gofal cymdeithasol ymddwyn tuag atynt, a hefyd mae'n nodi'r hyn y dylai cyflogwyr ei wneud i helpu'r gweithwyr hynny i ddarparu'r gofal. Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i weithwyr barchu barn a dymuniadau unigolion a gofalgwyr, ynghyd â hyrwyddo eu hawliau a'u buddiannau, gan sicrhau bod yr hyn a wnânt yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'u bod yn ymddwyn gydag uniondeb. Hefyd, mae proses gofrestru yn ategu dull mwy cyson o ymdrin â dysgu a datblygu; a cheir rhestr o anghenion hyfforddi, y cytunodd Gofal Cymdeithasol Cymru arni, ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Trwy gofrestru gweithwyr, bydd modd inni gasglu rhagor o ddata er mwyn ein helpu i ddeall demograffeg y gweithlu ac ymateb i hyn wrth inni ddatblygu polisiau i wella cyfraddau recriwtio a chadw staff; a chyflwyno mesurau a fydd yn gwella telerau ac amodau'r sector.

O ran cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, ar hyn o bryd ceir tri llwybr ar gyfer cofrestru, sef: cofrestru gyda chymhwyster Lefel 2 angenrheidiol; cadarnhau cymhwysedd; neu gofrestru ar ôl cwblhau'r dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd. Dylai'r gweithwyr hynny a fydd yn cofrestru trwy ddilyn y llwybr 'cadarnhau cymhwysedd' helpu i leihau'r effaith ar y grwpiau a nodir uchod, gan ganiatáu iddynt gofrestru cyn y dyddiad cau gorfodol ym mis Hydref 2022. Mae cadarnhau cymhwysedd yn caniatáu i reolwyr asesu gweithwyr a chanddynt dair blynedd neu fwy o brofiad ar sail cymhwyseddau angenrheidiol¹² y rôl honno

¹¹ https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Code-of-Professional-Practice-for-Social-Care-web-version.pdf

¹² https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Confirmed-competence-for-adult-care-home-worker-registration.docx

a chyflwyno datganiad llofnodedig yn cadarnhau bod eu gweithwyr wedi arddangos yr wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer darparu gofal o ansawdd. Yn achos gweithwyr a fydd yn cofrestru trwy ddilyn y llwybr cadarnhau cymhwysedd cyn mis Hydref 2022, ni fyddant angen cymhwyster i gofrestru, ond fe fydd yn ofynnol iddynt gwblhau hyfforddiant a dysgu cyn-cofrestru am hyn a hyn o oriau.

Ar hyn o bryd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgynghori ynghylch cynigion i symleiddio'r broses gofrestru, gan gael gwared â'r angen i gwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd a defnyddio system debyg i'r llwybr cadarnhau cymhwysedd. Bydd y llwybr newydd 'asesiad gan gyflogwr' yn dilyn dull tebyg i'r llwybr cadarnhau cymhwysedd, lle bydd cyflogwyr yn rhoi sicrwydd bod y gweithiwr gofal cymdeithasol wedi cyrraedd y lefel gymhwysedd angenrheidiol. Yn achos gweithwyr gofal cymdeithasol a fydd yn defnyddio asesiad gan gyflogwr i gofrestru, bydd angen iddynt gwblhau un o'r cymwysterau a restrir yn y fframwaith cymwysterau, a hynny o fewn y cyfnod cofrestru cyntaf (sef tair blynedd). Bydd hyn yn helpu i symleiddio'r broses, gan ei gwneud yn bosibl i ychwanegu mwy o weithwyr at y Gofrestr yn gyflymach, a gwella diogelwch y cyhoedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddiwr ynglŷn â'r mater hwn.

Cwestiwn 6: Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol?

Cwestiwn 6ii: Ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa un neu rai a pham/pam ddim?

Crynodeb o'r ymatebion

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan naw o'r ymatebwyr.

Roedd pump o ymatebwyr o'r farn na fyddai'r Rheoliadau yn effeithio'n negyddol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Roedd dau ymatebydd o'r farn fod angen cael amrywiaeth o opsiynau i weithwyr presennol er mwyn eu galluogi i gofrestru gyda'r rheoleiddiwr, yn hytrach na chymwysterau yn unig, a hynny er mwyn lleihau straen a gorbryder.

Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai'r ffioedd cofrestru o £30 atal pobl rhag ymuno â'r sector, oherwydd byddai'n anodd i weithwyr ar gyflog isel dalu'r ffi ymlaen llaw ar ffurf un taliad. Argymhellwyd y dylid cyflwyno cynllun rhandalu neu gynllun cymhorthdal, ynghyd â ffi sy'n ddibynnol ar brawf modd, er mwyn cynnig graddfa symudol i weithwyr a gyflogir ar gontractau rhan-amser neu fel myfyrwyr. Ymhellach, dywedodd yr ymatebydd hwn y dylid ymestyn y cyfnod cofrestru chwe mis i 12 mis ar gyfer gweithwyr sydd wedi bod ar salwch hirdymor neu ar gyfnod mamolaeth.

Gofynnodd ymatebydd arall am ragor o opsiynau ar gyfer cofrestru, yn hytrach na gwasanaethau ar-lein yn unig. Roedd ymatebydd arall yn coleddu barn debyg – dywedodd fod y gweithlu traddodiadol yn deillio'n bennaf o bobl heb lawer o lwyddiant academaidd ac y gallent wynebu effaith anghymesur oherwydd y gofynion o ran cymwysterau.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r ymgeiswyr gael yr opsiwn i gofrestru gyda theitlau mwy niwtral o ran rhywedd, neu gael yr opsiwn i newid eu teitlau pa baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y gallai proses gofrestru orfodol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol gael effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig yn achos pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu. Tynnodd dau ymatebydd sylw at yr angen i ystyried y straen a'r gorbryder a fyddai'n deillio o gwblhau'r broses, gan dynnu sylw hefyd at y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth ffioedd cofrestru; ac roedd ymatebydd arall o'r farn y gallai'r angen i fodloni gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer adnewyddu cofrestriadau gynyddu gorbryder a gwthio pobl allan o'r sector gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi cydnabod ac wedi ymateb i sawl awgrym ynglŷn â nifer y llwybrau cofrestru, fel y nodir yng Nghwestiwn 6i uchod. Ymhellach, roedd ymgynghoriad Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn â chynigion i symleiddio'r broses gofrestru yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig o'r gofynion DPP, a hynny er mwyn cydnabod bod profiad ymarferol yn aml yr un mor effeithiol ag astudio, ac er mwyn lleihau'r pwyslais a rydd y system bresennol ar ddysgu a datblygiad proffesiynol.

Fel y nodir yng Nghwestiwn 4 uchod, y rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am osod ffioedd cofrestru. Gwelir bod nifer o ymatebion wedi cyflwyno sawl awgrym yn ymwneud â gosod ffioedd, yn cynnwys cynllun prawf modd neu ffioedd cofrestru *pro rata* ar gyfer gweithwyr rhan-amser, gweithwyr sydd ar absenoldeb salwch hirdymor neu weithwyr sydd ar gyfnod mamolaeth. Byddwn yn rhannu'r syniadau hyn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnig gwahanol fathau o gymorth i gyflogwyr a chyflogeion yn ymwneud â'r broses gofrestru, yn cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb er mwyn eu helpu i gwblhau'r broses gofrestru. Gall unrhyw un sydd â phryderon neu broblemau ynglŷn â chofrestru gysylltu â thîm cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru i gael help a chymorth trwy ffonio 0300 303 3444 neu ysgrifennu i'r cyfeiriad Gofal Cymdeithasol Cymru, Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW neu Uned 19, Parc Busnes Llanelwy, Ffordd Glascoed, Llanelwy, LL17 0LJ.

Cwestiwn 7: Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Crynodeb o'r ymatebion

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan hanner y rhai a ymatebodd.

Croesawodd un ymatebydd y cyfnod gras o 6 mis ar gyfer cofrestru gweithwyr newydd, oherwydd byddai'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu â darparwyr gofal cartref er mwyn dod o hyd i gyfleoedd addysg a llwybrau gyrfa.

Roedd dau o'r ymatebwyr yn croesawu'r syniad o broffesiynoli'r sector, ond dywedasant fod angen cynyddu cyflogau er mwyn adlewyrchu'r broses hon. Dywedodd ymatebydd arall fod cyflogau'n cael eu talu ar gyfraddau gweithwyr heb sgiliau a bod y gofynion a roddir ar reolwyr i asesu gweithwyr yn annerbyniol gan y byddent yn arwain at gynyddu'r llwyth gwaith ar adeg pan mae'r sector o dan bwysau'n barod. Soniodd dau ymatebydd arall am yr angen i weithwyr gwblhau cymhwyster Lefel 2 a dywedasant fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddeall yr effaith a gâi hyn ar y sector. Er y gellid cwblhau'r cymhwyster dros gyfnod o dair blynedd cyn adnewyddu'r cofrestrriad, gallai hyn fod yn broblem o hyd i rai; y teimlad oedd ei fod wedi arwain at brinder staff gan fod pobl wedi gadael y sector, a'i fod hefyd wedi arwain at gostau uwch i gyflogwyr, heb gyfrannu at broffesiynoldeb. Gofynnodd yr ymatebwyr hyn am gael gwerthusiad ffurfiol o effaith y cymhwyster Lefel 2 ar broffesiynoldeb, recriwtio, cadw staff, capasiti a chostau i gyflogwyr, fel y gellir trafod y canfyddiadau a'r materion gyda'r sector er mwyn dod o hyd i atebion a fyddai'n osgoi dadsefydlogi mwy ar y sector. Aeth ymatebydd arall yn ei flaen i gwestiynu gwerth cymwysterau ar draul profiad.

Er bod ymatebydd arall yn gefnogol i'r syniad o broffesiynoli'r sector, dywedodd y byddai llyddiant y broses gofrestru yn dibynnu ar reoleiddio'r hyfforddiant cynefino.

Crybwyllodd tri ymatebydd fod angen diffinio'n well pa weithwyr y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru. Roedd un ymatebydd yn amau'r angen i gofrestru staff allgymorth neu staff cyfleoedd dydd; tynnodd ymatebydd arall sylw at y pryder y gallai rhai gweithwyr syrthio rhwng y craciau gan nad oeddynt yn ffitio'n daclus i'r categori 'gweithwyr gofal iechyd' nac i'r categori 'gweithwyr gofal cymdeithasol'. Roedd ymatebydd arall o'r farn ei bod hi'n briodol cofrestru staff mewn colegau Addysg Uwch arbenigol sy'n darparu gofal a chymorth i unigolion, ond dywedodd y dylent gael eu heithrio rhag talu ffioedd cofrestru.

Roedd dau ymatebydd arall yn pryderu y byddai amseru'r broses gofrestru yn rhoi pwysau ar y sector, a dywedodd un ohonynt fod yna anghysondeb rhwng y ddeddfwriaeth a'r pecynnau cymorth gan y rheoleiddiwr. Daw'r Rheoliadau i rym ym mis Hydref 2022, ond yn ôl Gofal Cymdeithasol Cymru bydd ei becynnau cymorth yn cael eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2022.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cydnabyddwn fod angen gwella telerau ac amodau'r gweithlu gofal cymdeithasol. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd cyllid o £43.2m i wireddu un o ymrwymadau ein Rhaglen Lywodraethu, sef talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn yr haf, byddwn y comisiynu gwerthusiad dynamig annibynnol o'r modd y cyflwynwyd y Cyflog Byw Gwirioneddol. Hefyd, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol fel rhan o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd.

O ran Swyddogion Adsefydlu ar gyfer pobl â Nam ar y Golwg, nid oes gennym unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gofrestru rhagor o grwpiau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol, ond byddwn yn parhau i adolygu a ddylid ymestyn y broses gofrestru yn y dyfodol.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol I / N	Sefydliad / Ar ran
1.	N	Park House Court Ltd.
2.	I	
3.	N	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
4.	N	Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg
5.	I	
6.	I	
7.	I	
8.	I	
9.	I	
10.	N	Y sefydliad Vegetarian for Life
11.	I	
12.	N	Hafod
13.	I	
14.	I	
15.	I	
16.	I	
17.	N	Datblygu Gweithlu Blaenau Gwent a Chaerffili
18.	N	Leonard Cheshire Cymru
19.	I	
20.	N	RNIB Cymru
21.	N	Cynllunio a Datblygu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sir y Fflint
22.	N	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
23.	N	Tîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent
24.	N	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
25.	N	Y Coleg Nyrsio Brenhinol
26.	N	Natspec
27.	N	Y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
28.	N	Fforwm Gofal Cymru
29.	N	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
30.	N	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru